



Cyngor Dinas Caerdydd

‘Defnydd a Fwriedir’/ Masnachu Pell gan Gerbydau Hacni

Dyddiad: 1 Tachwedd 2016

1 Cyflwyniad

- 1.1 Diben y polisi hwn yw sefydlu sut y bydd Cyngor Dinas Caerdydd yn sicrhau fod ceisiadau ar gyfer trwyddedau cerbydau hacni yn cael eu penderfynu yn unol â'r arweiniad ac roedd gan yr Uchel Lys yn ei ddyfarniad, a'r datganiad a wnaed yn achos Cyngor Dinas Newcastle yn erbyn Cyngor Berwick upon Tweed [2008].
- 1.2 Bydd y Cyngor yn penderfynu ar bob cais fesul un yn ôl ei rinweddau, ond diogelwch y cyhoedd fydd y brif ystyriaeth wrth i'r Cyngor geisio cynnal rheolaeth leol ar y cerbydau trwyddedig.

2 Ceisiadau am Drwydded neu adnewyddu Trwydded Cerbyd Hacni

- 2.1 Disgwylir i ymgeiswyr am drwydded neu drwydded i'w hadnewyddu, ddangos bwriad gwirioneddol i chwilio am waith o fewn dinas Caerdydd dan delerau'r drwydded y gwneir cais ar ei chyfer.
- 2.2 Mae gan Gyngor Dinas Caerdydd ar hyn o bryd derfyn ar niferoedd y trwyddedau cerbyd hacni y mae'n eu caniatáu. Os caiff y cyfyngiad hwn ei godi, bydd y polisi hwn ar waith hefyd ar gyfer ceisiadau newydd ar gyfer trwydded cerbyd hacni.
- 2.3 Bydd rhagdybiaeth ar waith na chaiff ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu chwilio am fusnes yn gyfan gwbl neu ar y cyfan o fewn Dinas Caerdydd yn derbyn trwydded cerbyd hacni yn caniatáu iddynt wneud hynny. Penderfynir ar bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.
- 2.4 Mae Adran 60 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatáu yn fras i'r Cyngor wrthod adnewyddu trwydded am unrhyw achos rhesymol. Bydd y polisi defnydd arfaethedig hwn hefyd yn berthnasol ar gyfer adnewyddu trwydded yn yr un modd â chais arferol am drwydded. Penderfynir ar bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.
- 2.5 Hyd yn oed os mai'r bwriad yw chwilio am fusnes yn gyfan gwbl neu ar y cyfan yn Dinas Caerdydd, os mai'r bwriad yw masnachu mewn ardal awdurdod lleol arall am gyfnod sylweddol o amser (ac y bydd cyfaddawdu ar ddiben y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd) yna, gan ddibynnu ar rinweddau unigol y cais dan sylw, bydd rhagdybiaeth y caiff y cais ei wrthod.

3 Ceisiadau i drosglwyddo trwydded cerbyd hacni

- 3.1 Os caiff y drwydded cerbyd hacni ei throsglwyddo i berchennog arall yn ystod cyfnod y drwydded, gofynnir i'r perchennog newydd hysbysu'r Cyngor os oes bwriad gwirioneddol ganddo ef/hi i chwilio am fusnes o fewn Dinas Caerdydd. Dylai perchennogion newydd sylwi bod dyletswydd arnynt dan Adran 73 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i roi'r wybodaeth i swyddog awdurdodedig y gallai fod ei hangen yn rhesymol arno er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau dan y ddeddfwriaeth. Lle bydd achos o fethu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, yn ychwanegol i'w rymoedd dan isadran 73, gall y Cyngor ystyried arfer ei rym i atal y drwydded dan isadran 60 Deddf 1976 hyd nes y daw'r cyfryw wybodaeth i law.
- 3.2 Bydd disgwyl bod gan berchnogion newydd ar gerbydau hacni trwyddedig fwriad gwirioneddol i werthu eu gwasanaeth o fewn Dinas Caerdydd dan delerau trwydded y cerbyd a drosglwyddir.
- 3.3 Os daw i'n sylw nad oes gan perchennog newydd y cerbyd hacni trwyddedig unrhyw fwriad o werthu ei wasanaeth yn llwyr neu y rhan fwyaf o'r amser o fewn ffiniau Dinas Caerdydd a'i fod yn bwriadu masnachu mewn ardal awdurdod arall am gyfnod sylweddol (ac y bydd cyfaddawdu ar ddiben y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd) yna, gan ddibynnu ar rinweddau unigol yr achos dan sylw, ystyrir atal neu ddiddymu'r drwydded o dan is-adran 60 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Pan fo'r perchennog yn cynnig gweithredu o bell o ardal weinyddol Dinas Caerdydd rhagdybir y caiff ei drwydded ei hatal. Penderfynir ar bob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.

4 Ceisiadau i drosglwyddo trwydded cerbyd hacni

- 4.1 Pan fo perchennog yn adnewyddu cerbyd hacni, gofynnir iddo hysbysu'r Cyngor o'i fwriad ar gyfer defnydd y cerbyd. Bydd rhagdybiaeth ar waith na chaiff ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu chwilio am fusnes yn gyfan gwbl neu ar y cyfan o fewn Dinas Caerdydd dderbyn trwydded cerbyd hacni. Hyd yn oed os mai'r bwriad yw chwilio am fusnes yn gyfan gwbl neu ar y cyfan yn Dinas Caerdydd, os mai'r bwriad yw masnachu mewn ardal awdurdod lleol arall am gyfnod sylweddol o amser (ac yr ymddengys fod cyfaddawdu ar ddiben y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd) yna, gan ddibynnu ar rinweddau unigol yr achos dan sylw, bydd rhagdybiaeth y caiff y cais ei wrthod.
- 4.2 Lle rhoddwyd trwydded ar y sail bod yr ymgeisydd yn bwriadu gwerthu ei wasanaeth yn gyfan gwbl neu ar y cyfan o fewn Dinas Caerdydd ond y canfyddir wedyn nad yw'n gwneud hynny a'i fod yn masnachu o fewn ffiniau awdurdod lleol arall am gyfnod sylweddol o amser (ac yr ymddengys fod

cyfaddawdu ar ddiben y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd) mae'n bosib y caiff y drwydded ei hatal. Caiff y penderfyniad ar atgyfeirio mater o'r fath at is-Bwyllgor Amddiffyn y Cyhoedd ei wneud ar sail rhinwedd yr achos ei hun gan uwch swyddog.

5 Amgylchiadau eithriadol

- 5.1 Penderfynir ar bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol gellir hepgor yr amod bod ymgeiswyr yn gwerthu eu gwasanaeth o fewn Dinas Caerdydd yn llwyr neu ar y cyfan ac nid ydynt yn masnachu yn ardal awdurdod arall am gyfnod sylweddol o amser. Er nad yw'n bosib nac yn rhesymol i greu rhestr o'r hyn allasai fod yn amgylchiadau eithriadol, bydd disgwyl i ymgeisydd sy'n hawlio bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli, fodloni'r Cyngor na fyddai'n cyfaddawdu ar y ddeddfwriaeth na chyfaddawdu ar ddiogelwch y cyhoedd pe caniateid y drwydded, ei hadnewyddu neu pe na fyddai yn cael ei hatal, pa bynnag un fyddai'n berthnasol.